William Williams, 'Caledfryn', 1801–69

Gweinidog (A), awdur, bardd a beirniad

Yr oedd Thomas a Mary Williams, rhieni William Williams, mewn amgylchiadau cysurus pan anwyd ef yn Ninbych ar 6 Chwefror 1801, ac yn byw yn Bryn y Ffynnon. Gwehydd oedd ei dad a gyflogai dri gweithiwr i wneud brethyn a gwlenyn. Fe gafodd William addysg gynnar yn lleol hyd nes i'r hwch fynd trwy'r siop gyda masnach ei dad. Bu rhaid gwerthu'r busnes, y stoc a'r siop, ac am gyfnod bu pethau'n eithriadol o fain gan fod saith o blant i'w cynnal. Aeth William Williams i Lanrwst at ei daid am gyfnod byr i brentisio fel gwehydd ac yna dychwelodd i Ddinbych i gynorthwyo'i dad. O 1820 i 1826 bu'n cadw ysgol yng nghapel y Methodistiaid yn Ninbych a dyna pryd y dechreuodd gystadlu mewn eisteddfodau gan ennill y wobr gyntaf am englyn i'r enfys yn eisteddfod Aberhonddu ym 1822.

Y wobr ariannol am ennill y gystadleuaeth hon oedd pedair gini a oedd yn swm sylweddol ar y pryd. Gallai ennill yn gyson ychwanegu llawer at gyllid gweinidogion a oedd yn aml yn byw ar eu cythlwng. Yn yr un cyfnod bu'n cyfrannu i *Seren Gomer* o dan y glasenw Gwilym Caledfryn a defnyddiodd dalfyriad o'r enw weddill ei oes. Yr un flwyddyn cyhoeddodd ei lyfr cyntaf, sef *Cyfarwyddyd i Ddarllen ac Ysgrifenu Cymraeg*, a gwerthwyd dwy fil o gopïau ohono. Yn raddol datblygodd ei ddoniau cyhoeddus drwy gymryd rhan yn gyson yn yr oedfaon, ond yna penderfynodd droi at yr Annibynwyr oherwydd materion yn ymwneud â threfn eglwysig, ac ymaelododd yn Lôn Swan, Dinbych, ym 1826. Aeth ar deithiau pregethu am gyfnod, ac yna i'r coleg yn Rotherham am bedwar mis cyn symud ymlaen i Fanceinion lle y bu'n pregethu i gynulleidfa Gartside Street am naw mis.

Yn y diwedd, wedi derbyn cyngor gan William Williams o'r Wern, fe'i hordeiniwyd yn weinidog Peniel, Llannerch-y-medd a Maenaddwyn Môn ym 1829. Yn ystod y blynyddoedd dilynol bu'n weinidog ym Mhendref, Caernarfon, 1832–48; Aldersgate Street,

Llundain, 1848–50; Llanrwst, Trefriw a Nantyrhiw, 1850–56; Beulah ger Bangor, 1856–57, a'r Groeswen, Caerffili, 1857–69.

Yn ystod ei gyfnod yng Nghaernarfon fe gafodd amser caled am ddau reswm, sef ei wrthwynebiad i lwyrymataliaeth a'i ymosodiad ar John Elias. O 1839 ymlaen ymledodd y mudiad dirwestol trwy Gymru gan hyrwyddo llwyrymataliaeth rhag diodydd meddwol. Cododd mudiadau newydd fel y Rechabiaid ac Urdd y Ruban Las ac anogwyd Cristnogion i arwyddo ardystiad na fyddent byth yn ymgymryd ag alcohol. Plediodd Caledfryn gymedroldeb gan ysgrifennu yn erbyn y mudiad dirwestol, ac o ganlyniad daeth o dan y lach a'i wahardd rhag pregethu mewn rhai eglwysi.

Ymosododd ar John Elias mewn llythyr gan ei gyhuddo o ragrith ac o gowtowio i'r Eglwys Wladol. Parodd hyn i drefnyddion Calfinaidd Caernarfon – a brawd John Elias yn eu plith – droi yn ei erbyn. Yn wahanol i Elias plediai Caledfryn Ryddfrydiaeth a bu'n amlwg yn yr Anti-Corn Law League, y Gymdeithas Heddwch a Chymdeithas Rhyddhad Crefydd. Golygodd nifer o gylchgronau gan gynnwys *Y Sylwedydd*, 1831; *Tywysog Cymru*, 1832-3; *Y Seren Ogleddol*, 1835; *Yr Adolygydd*, 1839 a'r *Amaethydd*, 1852. ymhlith y llyfrau a gyhoeddodd oedd *Drych Barddonol* (1839) a *Caniadau Caledfryn* (1856). Priododd dair gwaith ac fe gafodd ferch, Margaret Mary, a mab William (ap Caledfryn) a ddaeth yn enwog fel arlunydd. Bu farw 23 Mawrth 1869.